

# Canllaw i ddadansoddi risg

## Ein gwiriadau risg

Mae'r mwyafrif helaeth o bobl sy'n ymgeisio i ni'n onest, ond o bryd i'w gilydd rydym yn derbyn cais sy'n codi pryderon difrifol.

Gan ein bod yn gyfrifol am arian cyhoeddus, mae'n ddyletswydd arnom i asesu'r lefel o risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw gais neu brosiect a ariannwn. Gan hynny mae gennym ystod o wiriadau i'n helpu i asesu risg.

Ni allwn roi manylion penodol am yr holl wiriadau a wnawn gan y byddai hynny'n lleihau eu heffeithiolrwydd. Er hynny, gallwn roi rhywfaint o wybodaeth gyffredinol i chi am y pethau yr edrychwn amdanynt a sut rydym yn trin unrhyw bryderon sy'n cael eu hadnabod.

## Gwiriadau adnabyddiaeth

Dylai'r sawl a enwir fel pobl gyswllt ar y ffurflen gais neu unrhyw ddogfennaeth arall fod yn gwbl ymwybodol o'r cais a'r prosiect.

I'n helpu ni i leihau'r posibilrwydd o dwyll mae'n bosib y byddwn yn defnyddio enw, cyfeiriad cartref a dyddiad geni unrhyw bobl gyswllt a enwir i gyflawni rhai gwiriadau adnabyddiaeth sylfaenol. Rydym yn fwy tebygol o fedru cadarnhau adnabyddiaeth rhywun os ydynt ar y gofrestr etholiadol neu os oes ganddynt Citizen card.

Rydym yn defnyddio asiantaethau cyfeirnod credyd i gadarnhau gwybodaeth bersonol. Nid gwiriad credyd mo hwn ac ni fydd yn ymddangos ar unrhyw gofnod os ydych yn gofyn am greddy gan fudiadau eraill.

Os yw eich pobl gyswllt a enwir yn newid yn ystod cyfnod eich grant, chi sy'n gyfrifol am ein hysbysu am y newidiadau hyn mor fuan â phosib ar ôl iddynt ddigwydd. Mae'n bosib y byddwn yn cyflawni'r un gwiriadau ar y bobl hyn.

## Gallwn ond roi dyfarniad neu wneud taliadau grant i'ch mudiad os:

- gallwn gadarnhau adnabyddiaeth eich pobl gyswllt a enwir ac na adnabuwyd unrhyw broblemau; ac
- os ydym yn fodlon y byddai'n ddiogel ymddiried yn eich mudiad i dderbyn arian cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth ar eich ffurflen gais yn gywir ac yn gyflawn. Gwnewch yn siŵr fod yr enwau a ddarparwch yn cyfateb i'r rhai sydd ar ddogfennau cyfreithiol, megis pasbortau, dogfennau mewnfudo neu drwyddedau gyrru.

Os oes rhywbeth sy'n peri pryder neu nad ydym wedi siarad â chi ers tro, mae'n bosib y byddwn yn ffonio chi i gadarnhau eich manylion personol at ddibenion diogeledd.

Yn ogystal â'r cam ymgeisio, gall ein gwiriadau adnabyddiaeth ddigwydd unrhyw bryd yn ystod bywyd eich grant. Os bydd y gwiriadau hyn yn codi pryderon ynghylch adnabyddiaeth eich pobl gyswllt a enwir neu'n tynnu ein sylw at unrhyw faterion a allai gynyddu'r risg o roi arian cyhoeddus o dan ofal eich mudiad, gallai eich grant gael ei ddiddymu o dan amodau a thelerau'r grant.

Os na allwn gadarnhau'r bobl gyswllt a enwir, byddwn yn ysgrifennu atoch gyda manylion yr asiantaethau cyfeirnod credyd a ddefnyddiom.

Ni allwch apelio yn erbyn ein penderfyniad os yw'n seiliedig ar y gwiriadau adnabyddiaeth rydym yn eu cyflawni.

## Eich hanes gyda ni a gwybodaeth gyhoeddus

Os ydych chi neu unrhyw fudiad yn ymgeisio i ni, byddwn yn ystyried sut mae unrhyw geisiadau neu grantiau gennym ni gyda'ch mudiad wedi'u rheoli yn y gorffennol. Byddwn hefyd yn ystyried y bobl sy'n ymwneud â'ch mudiad, felly mae'n bwysig eich bod yn adnabod y bobl rydych yn cydweithio â nhw ac yn cyflawni eich diwydrwydd dyladwy eich hun.

Mae'n bosib y byddwn yn adnabod pryderon ynghylch unigolyn sy'n gysylltiedig â'ch mudiad. Gall y pryder hwn gael ei adnabod gan hanes eich mudiad, cysylltiadau'r unigolyn â mudiadau eraill sy'n destun pryder neu drwy wybodaeth amdanynt yn y parth cyhoeddus e.e. cyrff rheoleiddio, eich gwefan eich hun, eich tudalennau cyfryngau cymdeithasol neu chwiliadau eraill ar y rhyngwrdd.

Oherwydd y cyfyngiadau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n bosib na fydd modd i ni ddarparu unrhyw wybodaeth i chi ar y mater hwn neu geisio datrys y pryder sydd gennym ni.

### Twyll

Os byddwn yn adnabod risg o dwyll yn ystod ein hasesiad o'ch cais, mae'n bosib y byddwn yn gwrthod eich cais.

Os down yn ymwybodol o unrhyw dwyll wrth i chi reoli ein grant, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddechrau'r broses o adennill ein harian.

Byddwn yn diddymu unrhyw daliadau sydd ar ddod, ac mae'n bosib y byddwn yn hysbysu'r Heddlu.

Os byddwch yn darparu gwybodaeth ffug neu anghywir yn eich cais neu unrhyw bryd yn ystod cyfnod unrhyw ariannu a ddyfarnwn i chi ac mae twyll yn cael ei ddatgelu, byddwn yn darparu manylion, gan gynnwys enwau Cyfarwyddwyr y Cwmni ar adeg y twyll, i asiantaethau atal twyll. Ni fyddwn yn goddef gwyngalchu arian nag unrhyw ymgais i'n hamddifadu ni trwy dwyll.

### I gael mwy o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio asiantaethau atal twyll:

e-bost

[diogelu.data@cronfagymunedolyg.org.uk](mailto:diogelu.data@cronfagymunedolyg.org.uk)

- ffonio ein llinell gymorth ar 0300 123 0735
- ysgrifennwch at Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, 10fed Llawr, Tŷ Helmont, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2DY.

### Rhyddhau gwybodaeth

I ddiogelu mecanweithiau datgelu ac atal twyll mewnol y Gronfa, ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw wybodaeth benodol bellach am ein prosesau dadansoddi risg neu ganlyniadau ein gwiriadau.

### A allaf ymgeisio eto?

Gallwch, ond byddwn yn cyflawni'r un gwiriadau ar unrhyw gais newydd. Os dengys y rhain nad yw ein pryderon wedi newid, mae'n annhebygol y bydd ein penderfyniad yn newid. Dylech gofio hefyd efallai bod y rhaglen rydych yn ymgeisio iddi'n agored dim ond am gyfnod cyfyngedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'n gwiriadau dadansoddi risg, anfonwch e-bost i [cymru@cronfagymunedolyg.org.uk](mailto:cymru@cronfagymunedolyg.org.uk) neu ffoniwch 0300 123 0735.

## Cysylltu â ni

[cymru@cronfagymunedolyg.org.uk](mailto:cymru@cronfagymunedolyg.org.uk)

[cronfagymunedolyg.org.uk](http://cronfagymunedolyg.org.uk)

T 0300 123 0735



18001 + 0300 123 0735



**CRONFA  
GYMUNEDOL  
COMMUNITY  
FUND**